## NODIADAU ATHRAWON

# SUT Y GALLWN NI GROESAWU ERAILL I'N BYD?

Mae dysgwyr yn ystyried beth yw twristiaeth ac yn creu troslais i fideo mud ar gyfer twristiaid. Maent yn ystyried yr hyn a wyddant am Gymru a pham mae pobl yn ymweld â Chymru, gan archwilio gwahanol agweddau ar sut mae twristiaeth yn effeithio ar Gymru a'r bobl sy'n byw yno. Mae dysgwyr yn archwilio data ynghylch y nifer o dwristiaid a'r atyniadau i dwristiaid, ac yn ystyried y manteision a'r anfanteision a ddaeth yn sgil cynnydd yn nifer y twristiaid. Maent yn dod i wybod am atyniadau twristiaeth ac yn archwilio beth yw nodweddion allweddol a rhinweddau arbennig eu hardal leol. Mae dysgwyr yn meddwl am y meini prawf ar gyfer poster da cyn creu poster i hyrwyddo twristiaeth gyfrifol yn eu hardal leol. Yn olaf, mae dysgwyr yn cyfuno syniadau o'u posteri i greu clip fideo byr i hyrwyddo twristiaeth gyfrifol yn eu hardal leol.

## CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd Dysgu a Phrofiad a archwiliwyd:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Dulliau o recordio golygfeydd a synau, e.e. tabled, ffôn clyfar, papur a phensiliau, ac ati.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Gallai rhai tasgau fod yn fwy effeithiol os oes gan barau neu grwpiau o ddysgwyr fynediad at ddyfais sy'n darparu mynediad i'r rhyngrwyd.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

## BETH YW TWRISTIAETH?

Eglurwch wrth y dysgwyr y dylai'r dasg hon eu helpu i ddeall beth yw twristiaeth ac archwilio'r rhesymau pam mae pobl yn penderfynu ymweld â lleoedd penodol.

### Sgrîn 3

Mae'r sgrin gyntaf wedi'i chynllunio i ysgogi gwybodaeth a dealltwriaeth flaenorol dysgwyr. Gwahoddwch y dysgwyr i ystyried sylwadau'r 'pennau sy'n siarad' ac i awgrymu gyda phwy maen nhw'n cytuno fwyaf, a pham, a gyda phwy maen nhw'n anghytuno, a pham.

### Sgrîn 4

Dangoswch y clip fideo mud i'r dysgwyr a gofynnwch iddyn nhw feddwl am y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth allwch chi ei weld? Sut ydych chi'n gwybod?
- Ble yw hwn, yn eich meddwl chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth ydych chi'n ei wybod am y lle hwn? Sut ydych chi'n gwybod y pethau hyn?
- Pam y gallai'r lle hwn fod yn boblogaidd gyda thwristiaid? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 5

Eglurwch wrth y dysgwyr fod y clip fideo yn dangos lluniau drôn o Aberystwyth a'ch bod chi am iddyn nhw greu troslais ar gyfer y fideo hwn i hybu twristiaeth. Er mwyn darparu gwybodaeth gefndir a fyddai'n gymorth i greu troslais, gwahoddwch y dysgwyr i wneud ymchwil i ddarganfod nodweddion allweddol a rhinweddau arbennig Aberystwyth a pham fod y dref yn boblogaidd gyda thwristiaid. Gofynnwch iddynt ystyried y cwestiynau canlynol cyn iddynt ddechrau ymchwilio.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw nodweddion allweddol a rhinweddau arbennig Aberystwyth?
- Sut byddwch chi'n dod o hyd i'r wybodaeth hon? Pam fyddwch chi'n dod o hyd i'r wybodaeth fel hyn?
- Sut byddwch chi'n gwybod bod y wybodaeth y byddwch chi'n dod o hyd iddi yn ddibynadwy? Pam fod hyn yn bwysig?
- Sut byddwch chi'n gwybod a yw'r wybodaeth y byddwch chi'n dod o hyd iddi yn rhagfarnllyd? Pam fod hyn yn bwysig?

## Sgriniau 6-7

Yn eu grŵp, gofynnwch i'r dysgwyr wylio'r clip fideo eto ac yna creu sgript troslais ar gyfer y fideo, gan drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw hyd y fideo? Sut ydych chi'n gwybod? Sut y byddwch yn sicrhau bod eich troslais yr un hyd?
- Beth ydych chi am ei ddweud wrth wylwyr am y lle hwn? Pam?
- Pa wybodaeth allech chi ei chynnwys?
- Beth yw'r wybodaeth bwysicaf i'w chynnwys? Pam?
- Beth ydych chi'n ei wybod am y lle hwn? Sut ydych chi'n gwybod y pethau hyn?
- Beth sy'n arbennig am y lle hwn? Pam?

Ar ôl i bob grŵp greu troslais, gwahoddwch y dysgwyr i chwarae'r clip fideo a chynnwys eu troslais yn rhan o'r clip fideo.

TASG 2

# PAM MAE POBL YN YMWELD Â CHYMRU?

Eglurwch wrth y dysgwyr y bydd y dasg hon yn datblygu eu dealltwriaeth o dwristiaeth yng Nghymru. Byddant yn archwilio pa leoedd yng Nghymru mae pobl yn ymweld â nhw a pham maen nhw'n gwneud hynny, y gwahanol fathau o dwristiaeth a manteision ac anfanteision y cynnydd yn y nifer o dwristiaid sy'n ymweld â Chymru.

## Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr wylio'r fideo (tua 3 munud) am Gymru a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa nodweddion o Gymru welsoch chi yn y fideo? Sut mae'r nodweddion hyn yn denu twristiaid?
- Beth ydych chi'n ei wybod am y nodweddion hyn? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa leoedd yn y fideo wnaethoch chi eu hadnabod? Pam?
- Pam ydych chi'n meddwl bod pobl yn ymweld â Chymru?

Gallech chi ofyn i'r dysgwyr rannu eu syniadau gyda'r dosbarth.

## Sgrîn 4

Siaradwch â'r dysgwyr am y ffaith fod gan Gymru ddiwylliant a threftadaeth unigryw a llawer o draddodiadau. Eglurwch wrthynt fod angen gwybodaeth am ystadegau a daearyddiaeth y wlad er mwyn gallu cynllunio ar gyfer twristiaeth.

Mewn grwpiau bach, gofynnwch iddyn nhw gwblhau'r tabl. Dim ond ar ôl i ddysgwyr ysgrifennu eu dyfaliad yn yr ail golofn y bydd y wybodaeth yn y drydedd golofn yn cael ei datgelu. Gallech annog dysgwyr i ddefnyddio map ar-lein i archwilio ym mha ranbarth ac awdurdod lleol y maen nhw'n byw a pha ddinas yw'r un agosaf. Gallent hefyd chwilio am ddata ynghylch y boblogaeth leol.

## Sgrîn 5

Eglurwch wrth y dysgwyr mai'r math mwyaf poblogaidd a thraddodiadol o dwristiaeth yng Nghymru yw twristiaeth treftadaeth, lle mae twristiaid yn dod i gysylltiad â hanes trwy amgueddfeydd a safleoedd treftadaeth. Fodd bynnag, mae llawer o bobl yn dadlau dros symud tuag at dwristiaeth ddiwylliannol, sy'n canolbwyntio ar gerddoriaeth a gwyliau llenyddol a bwyd. Gallai hyn gyfrannu'n sylweddol at statws y Gymraeg fel iaith fyw a hyrwyddo'r diwylliant Cymreig amrywiol i'r byd.

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn dathlu celfyddydau, iaith a diwylliant Cymru ac yn denu llawer o dwristiaid o bob rhan o'r byd.

## Sgrîn 6

Eglurwch wrth y dysgwyr fod Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn cael ei chynnal mewn lleoliad gwahanol yn ystod wythnos gyntaf mis Awst bob blwyddyn. Mae hanes modern yr Eisteddfod yn dyddio'n ôl dros 150 o flynyddoedd ac fe gynhelir yr ŵyl am yn ail rhwng gogledd a de Cymru. Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn cynnwys cerddoriaeth, llenyddiaeth, celf a llawer mwy o bethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Ystyrir mai'r wyth diwrnod o gystadlu a pherfformiadau yw'r ŵyl gerddoriaeth a barddoniaeth fwyaf yn Ewrop, gyda thua 150,000 o ymwelwyr a thros 250 o stondinau masnach.

Gwahoddwch y dysgwyr i drafod yr hyn maen nhw'n ei wybod yn barod am yr Eisteddfod Genedlaethol ac i wneud ymchwil i ddod o hyd i ragor o wybodaeth ac ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydych chi'n ei wybod am yr Eisteddfod Genedlaethol?
- Pryd cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn eich ardal leol neu gerllaw? Ble cynhaliwyd hi? Gallwch ddefnyddio'r ddolen hon i ddarganfod mwy – Eisteddfod: Lleoliadau'r Gorffennol
- Os cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn agos i'ch ardal chi, faint o ymwelwyr newydd oedd yn eich ardal chi? Sut beth oedd hynny?
- Pa dystiolaeth sydd bod yr Eisteddfod Genedlaethol wedi'i chynnal yn eich ardal chi? Sut ydych chi'n gwybod hynny?
- A ydych chi neu'ch ysgol wedi cymryd rhan yn yr Eisteddfod Genedlaethol? Os felly, pryd a sut?
- Beth yw hanes yr Eisteddfod Genedlaethol?

## Sgrîn 7

Darparwch wybodaeth gefndirol am Urdd Gobaith Cymru i'r dysgwyr.

Wedi'i sefydlu yn 1922, mae ganddi dros 55,000 o aelodau ac mae'n rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddysgu a chymdeithasu yn y Gymraeg ac yn eu galluogi i wneud cyfraniadau cadarnhaol i'w cymunedau.

Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd yw'r ŵyl ieuenctid yng Nghymru sy'n cyfateb i'r Eisteddfod Genedlaethol, a gellir dadlau mai dyma ŵyl ieuenctid fwyaf Ewrop. Cynhelir yr ŵyl yn ystod hanner tymor mis Mai mewn gwahanol leoliadau bob yn ail rhwng de a gogledd Cymru, ac mae'n cynnwys canu, llefaru, celf, cyfansoddi, dawns a digwyddiadau offerynnol. Gydag oddeutu 100,000 o bobl yn mynychu, mae'r Urdd yn annog twristiaeth ac yn rhoi hwb i'r economi leol.

## Sgrîn 8

Eglurwch wrth y dysgwyr fod pobl yn ymweld â Chymru oherwydd bod 'awyr dywyll' mewn mwy na thraean o'r wlad. Gwahoddwch nhw i wylio'r fideo (1 munud a 30 eiliad) a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam y byddai awyr dywyll yn atyniad i dwristiaid?
- Ble yng Nghymru ydych chi'n meddwl mae'r awyr dywyll orau? Pam?
- Sut gallwn ni gynnal awyr dywyll yng Nghymru?

## Sgrîn 9

Eglurwch wrth y dysgwyr bod mwy na 67 miliwn o ymweliadau at ddibenion twristiaeth yng Nghymru bob blwyddyn. Mae hyn yn cynnwys pobl o Gymru yn mynd ar deithiau i rannau eraill o Gymru a tua 5 miliwn o arosiadau dros nos pan ar wyliau. Gwahoddwch y dysgwyr i ystyried y tabl data a'r cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut allech chi annog mwy o ymwelwyr dydd i aros dros nos? Pam fyddai'r syniadau hyn yn gweithio?

## Sgriniau 10-11

Eglurwch wrth y dysgwyr fod y bobl sydd fwyaf tebygol o ymweld â Chymru yn dod o Loegr, gan gyfrif am 94% o'r arosiadau dros nos.

Gwahoddwch nhw i edrych ar y tabl sy'n dadansoddi nifer yr ymwelwyr â Chymru yn ôl cenedligrwydd ac yna i ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam ydych chi'n meddwl bod cymaint o bobl o Loegr yn ymweld â Chymru?
- Mae'r Alban a Ffrainc tua'r un pellter o Gymru. Pam ydych chi'n meddwl bod nifer yr ymwelwyr mor wahanol?
- Pam ydych chi'n meddwl bod cymaint mwy yn ymweld o UDA nag o'r Eidal, gan ystyried fod yr UDA yn llawer pellach i ffwrdd?
- Ai dyma'r ffordd orau o ddangos y data hwn? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut arall allech chi ddangos y data hwn?

Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio Excel i ail-lunio'r data mewn siart neu graff, er mwyn ei arddangos yn gliriach.

Gwahoddwch nhw i wneud y canlynol:

- Trosglwyddo'r data i daenlen Excel.
- Amlygu'r tabl a chlicio ar 'Recommended charts'.
- Dethol 'All charts'.
- Sgrolio drwy'r dewisiadau er mwyn dod o hyd i'r ffordd orau o ddangos y data.

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa siart sy'n dangos y data'n fwyaf clir? Pam?

## Sgrîn 12

Eglurwch wrth y dysgwyr fod twristiaeth yn cyfrif am tua £6 biliwn mewn refeniw i Gymru bob blwyddyn, a gellir ei ddadansoddi fel a ganlyn:

- Gwariwyd £3.4 biliwn ar deithiau dydd i Gymru gan bobl Prydain
- Gwariwyd £2 biliwn ar ymweliadau dros nos â Chymru gan bobl Prydain
- Gwariwyd £0.5 biliwn gan ymwelwyr rhyngwladol â Chymru.

Gwahoddwch y dysgwyr i ystyried sut y gallen nhw gynyddu'r gwariant hwn, gan drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Mae ymwelwyr rhyngwladol yn fwy tebygol o ddod o'r Almaen, Gweriniaeth Iwerddon, Ffrainc, yr Iseldiroedd, Awstralia, yr Eidal a Chanada. Pam ydych chi'n meddwl eu bod yn dod o'r gwledydd hyn?
- Pa fath o atyniadau twristiaeth y mae ymwelwyr rhyngwladol yn dod i Gymru i'w gweld, yn eich barn chi? Pam?
- Sut allech chi annog mwy o ymwelwyr rhyngwladol? Pam fyddai hyn yn gweithio?

Gallech chi ofyn i'r dysgwyr rannu eu syniadau gyda'r dosbarth.

## Sgrîn 13

Eglurwch wrth y dysgwyr fod yna restrau o'r atyniadau yng Nghymru y mae ymwelwyr yn eu mynychu amlaf. Mae'r rhestr hwn yn cynnwys yr atyniadau rhad ac am ddim a'r rhai y telir amdanynt. Gwahoddwch y dysgwyr i ystyried pa atyniadau maen nhw'n meddwl allai fod ar y rhestrau hyn a chofnodi eu syniadau.

## Sgrîn 14

Dangoswch restr 2021 i'r dysgwyr o'r 10 atyniad mwyaf poblogaidd, lle nad oes angen talu tâl mynediad. Dangosir y niferoedd o ymwelwyr blynyddol mewn cromfachau:

- Parc Pleser Ynys Y Barri (1,250,000)
- Funland, Towyn (1,000,000)
- Parc Gwledig Pembre (804,513)
- Coedwig Niwbwrch (559,939)
- Cerddwyr ar Yr Wyddfa (544,489)
- Parc Coedwig Gwydir (408,511)
- Parc Gwledig Gwepra (400,000)
- Gwarchodfa Natur Genedlaethol Ystagbwll (390,498)
- Parc Gwledig Margam (305,678)
- Dyfrbont Pontcysyllte (285,411)

Gwahoddwch nhw i drafod y rhestr ac ateb y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut mae'r rhestr hon yn cymharu â'ch rhestr chi?
- Pa atyniadau oedd ar eich rhestr chi hefyd?
- Pa atyniadau ar y rhestr hon sy'n eich synnu? Pam?
- Pa un o'r rhain sydd agosaf at eich cartref? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa rai o'r rhain ydych chi wedi ymweld â nhw? Pryd? Pam?
- Pa atyniad oedd eich ffefryn? Pam?
- Sut wnaethoch chi gyrraedd yno? Pam?
- Pa atyniad hoffech chi ymweld ag ef? Pam?

## Sgrîn 15

Dangoswch restr 2021 i'r dysgwyr sy'n dangos y 10 atyniad mwyaf poblogaidd, lle mae angen talu tâl mynediad. Dangosir y niferoedd o ymwelwyr blynyddol mewn cromfachau:

- Castell Caerdydd (372,606)
- Folly Farm (348,689)
- Portmeirion (285,191)
- Canolfannau Hamdden Abertawe (285,047)
- Gerddi Bodnant (239,790)
- Nova Prestatyn (200,000)
- Zip World Coedwig (180,225)

- Zip World Ceudyllau Llechi (160,255)
- Castell Conwy (152,281)
- Zip World Chwarel Penrhyn (142,889)

Gwahoddwch nhw i drafod y rhestr ac ateb y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut mae'r rhestr hon yn cymharu â'ch rhestr chi?
- Pa atyniadau oedd ar eich rhestr chi hefyd?
- Pa atyniadau ar y rhestr hon sy'n eich synnu? Pam?
- Pa un o'r rhain sydd agosaf at eich cartref? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa rai o'r rhain ydych chi wedi ymweld â nhw? Pryd? Pam?
- Pa atyniad oedd eich ffefryn? Pam?
- Sut wnaethoch chi gyrraedd yno? Pam?
- Pa atyniad hoffech chi ymweld ag ef? Pam?

## Sgrîn 16

Eglurwch wrth y dysgwyr eich bod am iddyn nhw ddewis un o'r rhestrau o atyniadau twristiaeth o'r sgriniau blaenorol a defnyddio Excel i ddangos y data'n gliriach.

Gwahoddwch y dysgwyr i wneud y canlynol:

- Trosglwyddo'r data i daenlen Excel.
- Amlygu'r tabl a chlicio ar 'Recommended charts'.
- Dethol 'All charts'.
- Sgrolio drwy'r dewisiadau er mwyn dod o hyd i'r ffordd orau o ddangos y data.

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol

**Cwestiynau ffocws**

- Pa siart sy'n dangos y data'n fwyaf clir? Pam?

## Sgrîn 17

Dywedwch wrth y dysgwyr mai gogledd Cymru yw'r rhanbarth mwyaf poblogaidd ar gyfer teithiau dros nos yng Nghymru, a bod y tabl yn rhoi dadansoddiad rhanbarthol.

Eglurwch wrthynt fod dau o'r tri atyniad mwyaf poblogaidd, lle nad oes angen talu tâl mynediad a thri o'r pedwar atyniad lle mae angen talu tâl mynediad, yn ne Cymru. Gwahoddwch nhw i ystyried y cwestiynau canlynol ac i restru rhai rhesymau posibl.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam ydych chi'n meddwl mai gogledd Cymru sydd â'r ganran (%) uchaf o deithiau sy'n arwain at aros dros nos?
- Pam ydych chi'n meddwl bod mwy o deithiau sy'n arwain at aros dros nos yng ngogledd Cymru nag yn ne Cymru?

## Sgrîn 18

Rhowch rywfaint o wybodaeth ffeithiol am swyddi yn y diwydiant twristiaeth yng Nghymru, i'r dysgwyr.

- Mae tua 11% o bobl yn gweithio yn y diwydiant twristiaeth.
- Yn 2020, cyflogwyd 151,000 o bobl yn y diwydiant twristiaid – 11.3% o gyfanswm cyflogaeth.
- Roedd hyn ychydig yn uwch cyn y pandemig pan gyrhaeddodd ei uchafbwynt, sef 161,000 (12.1% o gyflogaeth) yn 2019.
- Canfu arolwg diweddar fod 62% o Saeson yn meddwl mai twristiaeth yw diwydiant mwyaf Cymru. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gywir. Y diwydiant mwyaf yng Nghymru yw gweithgynhyrchu, sy'n cyfrif am bron i £12 biliwn y flwyddyn, mwy na dwbl yr hyn a ddaw yn sgil twristiaeth.

## Sgriniau 19-20

Gwahoddwch y dysgwyr i ystyried sylwadau'r 'pennau sy'n siarad', gan gynnig barn wrthgyferbyniol am dwristiaeth. Eglurwch fod gan bobl farn wahanol ynghylch a yw cynyddu twristiaeth yng Nghymru yn beth da neu ddrwg. Gwahoddwch y dysgwyr i ystyried beth maen nhw'n ei feddwl ac i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw eich barn chi?
- Beth yw'r pethau cadarnhaol sy'n digwydd o ganlyniad i'r cynnydd mewn twristiaeth?
- Beth yw'r pethau negyddol sy'n digwydd o ganlyniad i'r cynnydd mewn twristiaeth?

Gofynnwch i'r dysgwyr gofnodi eu syniadau yn y tabl manteision ac anfanteision.

## Sgrîn 21

Cyfeiriwch y dysgwyr at erthygl y BBC, 2021: 'Yr Wyddfa: Galw ar gerddwyr i barchu'r mynydd' ynghanol cynnydd mawr mewn ymwelwyr.

Amlinellwch rai o'r prif bwyntiau a godwyd yn yr erthygl:

- 700,000 o ymwelwyr y flwyddyn – cynnydd o 40% mewn tair blynedd yn unig.
- ciwiau 45 munud ar y copa – yn bennaf oherwydd bod pobl yn cymryd hunluniau.
- pwysau sylweddol ar sail y cynnydd sylweddol yn nifer y twristiaid – sbwriel, erydiad llwybrau troed, gwersylla gwyllt, traffig, parcio.
- niferoedd mawr o'r ymwelwyr hyn heb wneud paratoadau priodol ar gyfer cerdded i fyny'r copa 1,085m (3,560 troedfedd) – rhai wedi gwisgo'n amhriodol a heb y profiad ffitrwydd neu heicio i gyrraedd y brig.

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol a gwneud rhestr o 10 rheol bwysig y credwch y dylai pobl eu dilyn.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa ganllawiau fyddech chi'n eu creu ar gyfer pobl sy'n ymweld â chefn gwlad? Pam?

Gallech chi ofyn i'r dysgwyr rannu eu syniadau gyda'r dosbarth.

## Sgrîn 22

Eglurwch wrth y dysgwyr mai set o ganllawiau yw'r Cod Cefn Gwlad sy'n galluogi pawb i fwynhau'r manteision iechyd a lles y mae byd natur yn eu cynnig, tra'n parchu'r amgylchedd a'r bobl sy'n byw ac yn gweithio ynddo. Gwahoddwch nhw i ddarllen mwy am y Cod Cefn Gwlad: cyngor i'r rhai sy'n ymweld â chefn gwlad, drwy ddilyn y ddolen hon ac yna i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut mae'r Cod Cefn Gwlad yn cymharu â'ch rhestr chi?
- Beth yw'r tebygrwydd?
- Beth yw'r gwahaniaethau?

Anogwch y dysgwyr i ychwanegu unrhyw syniadau newydd at eu tabl manteision ac anfanteision.

## Sgriniau 23-24

Rhowch wybod i'r dysgwyr bod Cadwch Gymru'n Daclus wedi cynnal ymchwil ar effaith twristiaeth ar sbwriel a bod y pwyntiau allweddol yn cynnwys:

- cydberthyniad rhwng niferoedd ymwelwyr a sbwriel
- gall ymwelwyr fod yn anghyfarwydd ag arferion gwastraff yn yr ardal y maent yn ymweld â hi neu gallent gael eu hysgogi gan ffactorau 'seicoleg gwyliau' a all arwain at ymddygiadau gwastraff llai cyfrifol
- mae angen ymyriadau penodol, negeseuon a chodi ymwybyddiaeth wedi'i dargedu ar gyfer ymwelwyr
- uchelgeisiau economi gylchol, e.e. mae mentrau ailddefnyddio ac atgyweirio, yn hanfodol ar gyfer twristiaeth gynaliadwy.

Gwahoddwch y dysgwyr i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam fod cydberthyniad rhwng nifer y twristiaid a swm y sbwriel?
- Sut mae'n bosibl nad yw twristiaid yn ymwybodol o sut mae'r ardal dwristiaeth yn delio â gwastraff a sbwriel? Sut allwn ni sicrhau bod twristiaid yn ymwybodol o hyn?
- Beth yw ystyr 'twristiaeth gynaliadwy' yn eich barn chi? Pam?

Anogwch y dysgwyr i ychwanegu unrhyw syniadau newydd at eu tabl manteision ac anfanteision.

## Sgriniau 25-26

Hysbyswch y dysgwyr bod 24,873 o ail gartrefi yng Nghymru wedi'u cofrestru at ddibenion y dreth gyngor ym mis Ionawr 2021, yn ôl ffigurau swyddogol. Eglurwch y gallai'r nifer fod yn llawer uwch mewn gwirionedd, yn dibynnu ar yr union ddiffiniad o ail gartref. Mae hyn oherwydd nad yw'r rhif hwn yn cynnwys unedau gwyliau, fel rhai AirBnb a thai gwyliau ar osod, sydd wedi'u cofrestru ar gyfer treth fusnes yn hytrach na threth ar ail gartrefi.

Gwahoddwch y dysgwyr i ystyried eu syniadau ac i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam y gallai fod yn anfantais i ardal gael llawer o ail gartrefi?
- Pam y gallai fod o fantais i ardal gael llawer o ail gartrefi?
- Beth yw eich barn am ail gartrefi? Pam?

Gallech chi ofyn i'r dysgwyr rannu eu gridiau manteision ac anfanteision gyda'r dosbarth. Anogwch y dysgwyr i ychwanegu unrhyw syniadau newydd at eu tabl manteision ac anfanteision.

TASG 3

# SUT GALLWN NI ANNOG TWRISTIAID CYFRIFOL I YMWELD Â'N HARDAL LEOL?

Mae dysgwyr yn archwilio nodweddion allweddol a rhinweddau arbennig eu hardal leol ac yn creu poster a chlip fideo i hyrwyddo twristiaeth gyfrifol yn eu hardal leol.

## Sgrîn 3

Eglurwch wrth y dysgwyr eich bod am iddyn nhw ystyried beth sy'n wych am eu hardal leol. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol a llunio map meddwl er mwyn rhoi trefn ar eu syniadau.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth sy'n wych am eich ardal leol, yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl bod y pethau hyn yn wych?
- Pam ydych chi'n meddwl bod eich ardal leol yn arbennig? Beth yw ei rhinweddau arbennig a'i nodweddion allweddol?
- Pam fyddai pobl eraill eisiau ymweld â'ch ardal? Sut ydych chi'n gwybod?
- Am beth mae'r ardal leol yn enwog? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- A oes unrhyw atyniadau twristiaeth yn eich ardal leol? Os felly, beth ydyn nhw?

Gallech chi ofyn i'r dysgwyr rannu eu syniadau gyda'r dosbarth.

## Sgriniau 4-5

Eglurwch wrth y dysgwyr eich bod chi am iddyn nhw ofyn i'w ffrindiau a'u teulu, pan y maen nhw gartref, am y rhesymau pam y gallai pobl ymweld â'r ardal leol. Dylent hefyd ofyn iddynt rannu eu barn am rinweddau arbennig a nodweddion allweddol yr ardal leol. Efallai y bydd pobl hŷn yn gallu dweud wrth y dysgwyr pryd y dechreuodd twristiaid ymweld â'r ardal a sut mae rhai atyniadau wedi newid dros y blynyddoedd.

Pan fyddwch yn ôl yn yr ysgol, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa atyniadau newydd i dwristiaid y daethoch i wybod amdanynt? Gan bwy gawsoch chi wybod am y rhain? Sut oedden nhw'n gwybod amdanyn nhw?
- Beth wnaeth eich synnu fwyaf am yr hyn y gwnaethoch chi ei ddarganfod? Pam?
- Sut mae twristiaeth yn yr ardal wedi newid dros y blynyddoedd? Pam?

Anogwch y dysgwyr i ychwanegu unrhyw syniadau newydd at eu map meddwl.

## Sgrîn 6

Gwahoddwch y dysgwyr i ddefnyddio'r map i ddod o hyd i'w hardal leol. Gallent gymryd sgrinluniau i'w defnyddio yn eu map meddwl. Efallai y byddan nhw hefyd am ddefnyddio'r map i ddarganfod ble mae'r atyniadau lleol i dwristiaid. Gallech ddefnyddio'r cwestiynau canlynol ar gyfer darparu sgaffald.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa atyniadau i dwristiaid sy'n ymddangos ar fap o'ch ardal leol?
- Pa atyniadau newydd ydych chi wedi'u darganfod? Pam nad oeddech chi wedi clywed amdanyn nhw o'r blaen?
- A ydy pob un o'ch nodweddion arbennig yn ymddangos ar y map? Pam? Pam ddim?

Anogwch y dysgwyr i ychwanegu unrhyw syniadau newydd at eu map meddwl.

## Sgrîn 7

Gofynnwch i'r dysgwyr chwilio ar y rhyngrwyd am unrhyw wybodaeth arall i dwristiaid am yr ardal leol, y gallant ddod o hyd iddi. Anogwch nhw i ystyried y cwestiynau canlynol ac i ychwanegu unrhyw syniadau newydd at eu map meddwl.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth wnaethoch chi ei ddarganfod wrth chwilio ar y rhyngrwyd?
- Beth wnaeth eich synnu fwyaf? Pam?
- Pa dirnodau neu atyniadau newydd y daethoch i wybod amdanynt?
- Pa wefan oedd yn cynnwys y wybodaeth fwyaf defnyddiol? Pam?
- Pa mor ddibynadwy yw'r wybodaeth y daethoch o hyd iddi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa mor ragfarnllyd yw unrhyw ran o'r wybodaeth y daethoch o hyd iddi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 8

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i gynhyrchu poster i annog twristiaeth gyfrifol yn eu hardal. Gofynnwch i'r dysgwyr fyfyrio ar eu mapiau meddwl ac ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

Pa syniadau...

- y gellid eu defnyddio mewn poster
- a allai fod o ddiddordeb i bobl a welodd y poster
- a fyddai'n helpu i hyrwyddo twristiaeth gyfrifol yn eich ardal?

## Sgriniau 9-10

Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar y poster a ddefnyddiwyd i hybu twristiaeth ac ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa ansoddeiriau allwch chi eu defnyddio i ddisgrifio'r poster?
- Sut mae'r poster yn gwneud defnydd o ddelweddau i ennyn eich diddordeb?
- Sut mae'r delweddau hyn yn defnyddio lliw yn effeithiol?
- Pa wybodaeth mae'r poster yn ei darparu? Pa mor ddefnyddiol yw hynny i dwristiaid? Pam?
- Beth fyddech chi'n ei ddarganfod pe byddech chi'n ymweld â'r fan hon? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth fyddech chi'n ei ddweud yw rhinweddau arbennig y lle hwn? Pam?
- I ba raddau mae'r poster yn annog twristiaeth gyfrifol? Pam?

Dangoswch yr ail boster i'r dysgwyr a gofynnwch iddyn nhw ystyried yr un cwestiynau.

## Sgriniau 11-12

Eglurwch wrth y dysgwyr eich bod am iddyn nhw feddwl a thrafod beth sy'n gwneud poster da ar gyfer annog twristiaeth gyfrifol. Gofynnwch iddynt ystyried y cwestiynau canlynol a gwneud rhestr o 10 nodwedd (meini prawf llwyddiant) ar gyfer yr hyn sy'n gwneud poster da ar gyfer annog twristiaeth gyfrifol ar y sgrîn nesaf.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw nodweddion pwysig poster da ar gyfer annog twristiaeth gyfrifol? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut y gallwn ni sicrhau bod ein poster yn annog twristiaeth gyfrifol?

## Sgrîn 13

Gwahoddwch y dysgwyr i flaenoriaethu eu meini prawf llwyddiant trwy lusgo a gollwng y blychau geiriau i ba bynnag siâp sy'n cynrychioli meddyliau'r grŵp orau, yn eu barn nhw. Eglurwch, er enghraifft, y gallen nhw ddefnyddio diemwnt, triongl, rhestr linol, ac ati. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol a bod yn barod i gyfiawnhau eu penderfyniadau.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa feini prawf llwyddiant yw'r rhai pwysicaf? Pam?
- Pa feini prawf llwyddiant yw'r lleiaf pwysig? Pam?

Gallech chi ofyn i'r dysgwyr rannu eu syniadau gyda'r dosbarth.

## Sgrîn 14

Atgoffwch y dysgwyr o'r hyn y maen nhw wedi'i wneud eisoes er mwyn paratoi ar gyfer creu poster da i annog twristiaeth gyfrifol:

- creu map meddwl i ddangos y pethau mae pobl yn ymweld â nhw yn yr ardal leol a'r rhesymau pam
- defnyddio map er mwyn canfod lleoliad atyniadau twristiaeth yn yr ardal leol
- rhestru 10 nodwedd (meini prawf llwyddiant) ar gyfer yr hyn sy'n gwneud poster da i hybu twristiaeth gyfrifol
- dewis eu tri maen prawf llwyddiant pwysicaf ac egluro eu rhesymau.

Gwahoddwch y dysgwyr i greu eu poster ar gyfer annog twristiaeth gyfrifol.

## Sgriniau 15-16

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod am greu clip fideo, tua 1 munud o hyd, i annog twristiaeth gyfrifol yn yr ardal leol.

Eglurwch eich bod am i bob pâr weithio gyda phâr arall i ystyried y cwestiynau canlynol ac i greu'r clip fideo.

**Cwestiynau ffocws**

- Gan gyfuno'r syniadau o'ch posteri, pa elfennau fyddai fwyaf defnyddiol ar gyfer y clip fideo? Pam?
- Pa rai o'r elfennau hyn fyddai'n dda i'w ffilmio ar gyfer eich clip? Pam?
- Gan feddwl am ffilmio yn yr awyr agored, sut allech chi ffilmio'r elfennau o'ch dewis?
- Pa syniadau eraill sydd gennych chi ar gyfer ffilmio yn yr awyr agored? Pam cynnwys y rhain?
- Sut fyddwch chi'n defnyddio llais neu gerddoriaeth yn y clip fideo? Pam ei wneud fel hyn?

Gwahoddwch y dysgwyr i fynd allan i'r awyr agored i ffilmio elfennau o'u clip fideo.

## Sgriniau 17-18

Eglurwch wrth y dysgwyr eich bod am iddyn nhw greu troslais ar gyfer eu clip fideo.

Gwahoddwch nhw i ystyried y cwestiynau canlynol ac i ychwanegu cerddoriaeth neu ysgrifennu eu sgript neu droslais.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw hyd y fideo? Sut ydych chi'n gwybod? Sut y byddwch chi'n sicrhau eich bod yn defnyddio llais/cerddoriaeth o'r un hyd?
- Beth ydych chi am ei ddweud wrth wylwyr? Pam?
- Pa wybodaeth allech chi ei chynnwys?
- Sut y byddwch yn sicrhau bod y clip fideo yn annog twristiaeth gyfrifol?

Gwahoddwch y dysgwyr i gyflwyno eu clip fideo.